

GALLWCH ARBED £60 Y MIS
TRWY BEIDIO Â THAFLU BWYD DA



PRYNU

BWYD SYDD EI ANGEN ARNOCH



BWYTA

BWYD RYDYCH YN EI BRYNU

AILGYLCHU

BWYD NA ALLWCH EI FWYTA



1 LLEIHAW EICH GWASTRAFF BWYD

Mae cartrefi Cymru yn taflu'r hyn sy'n cyfateb i chwe phryd bwyd yr wythnos, sy'n costio, i'r teulu cyffredin, bron

£60

y mis

Mae llawer o bethau y gallwch eu gwneud i leihau'r gwastraff hwn



CYNLLUNIO
Lluniwch restr siopa



PRYNU
Prynwch yr hyn sydd ei angen arnoch yn unig




BWYTA
Bwytwch yr hyn rydych yn ei weini



COGINIO
Coginiwch y maint cywir



STORIO
Rhowch fwyd yn y rhewgell ar gyfer ei fwyta rhywbryd eto



AILGYLCHU
Ailgylchwch yr hyn na allwch ei fwyta

Trwy wneud hyn, gall y teulu cyffredin arbed bron

£700

y flwyddyn



Ewch i hoffibwyd.casaugwastraff.com

I gael llawer mwy o awgrymiadau, cyngor, gwybodaeth a ryseitiau

2 MAE AILGYLCHU EICH GWASTRAFF BWYD YN HAWDD

Y peth gorau y gallwch ei wneud â bwyd yw ei fwyta. Ond ar gyfer unrhyw beth na allwch ei fwyta, fel crafion, esgyrn, sborion bwyd a bagiau te, y peth gorau i'w wneud yw eu hailgylchu.

Pam ailgylchu gwastraff bwyd?

Pan rydych yn rhoi gwastraff bwyd yn eich bag du, caiff ei anfon i safle tirlenwi lle mae'n pydru ac yn rhyddhau nwyon tŷ gwydr sy'n niweidio'r amgylchedd.

Trwy ailgylchu gwastraff bwyd, gellir ei droi'n ynni i bweru cartrefi a chompost i dyfu bwyd.

Sut galla' i ailgylchu fy ngwastraff bwyd?

CAM 1

Mynnwch yr offer cywir – bydd arnoch angen flwch cegin, leininau blychau a blwch ymyl y palmant. Cysylltwch â ni os oes arnoch angen unrhyw un o'r eitemau hyn. Gweler y manylion cyswllt ar y dudalen nesaf.




CAM 2

Rhowch leinin yn eich blwch cegin.



CAM 3

Rhowch unrhyw wastraff bwyd yn y blwch, gan ofalu eich bod chi'n gwaredu unrhyw ddeunydd pacio.



CAM 4

Pan mae eich blwch cegin yn llawn, dylech roi'r gwastraff yn y blwch ymyl y palmant, a'i roi allan i'w gasglu unwaith yr wythnos er mwyn ei ailgylchu.

MWY O RESYMAU DROS AILGYLCHU EICH GWASTRAFF BWYD



MAE'N HAWDD



MAE'N ATAL AROGLEUON BWYD



MAE'R BLYCHAU'N CLOI I ATAL PLÂU RHAG MYND I MEWN IDDYNT



CAIFF EI GASGLU UNWAITH YR WYTHNOS




CAIFF EI DROI'N DRYDAN

3

BETH SY'N DIGWYDD I FY NGWASTRAFF BWYD AR ÔL IDDO GAEL EI GASGLU?

Mae eich gwastraff bwyd yn cael ei drin mewn gweithfa Treulio Anaerobig, lle caiff ei droi'n gompost. Mae'r broses yn cynhyrchu trydan hefyd, y gellir ei ddefnyddio i bweru cartrefi a busnesau yn eich ardal chi.



4

HELP A CHYNGOR

I wneud cais am offer ailgylchu bwyd, neu am fwy o wybodaeth, ewch i

www.sirddinbych.gov.uk



[/cyngorsirddinbych](https://www.facebook.com/cyngorsirddinbych)



01824 706 100



[@CyngorSDd](https://twitter.com/CyngorSDd)



gwasanaethau.amgylcheddol@sirddinbych.gov.uk

Gallwch arbed arian trwy leihau, aildefnyddio ac ailgylchu eich gwastraff. Gall Ailgylchu dros Gymru ddangos i chi sut i wneud hyn.

www.ilgylchudrosymru.org.uk

www.hoffibwydcasauywastraff.com



[Facebook.com/ilgylchudrosymru](https://www.facebook.com/ilgylchudrosymru)



[@ailgylchu_gymru](https://twitter.com/ailgylchu_gymru)

